



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth yw hawliau plant?

Ydych chi wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

Rhestr o hawliau yw'r Confensiwn sydd gan bob plentyn 0-18 oed.

Mae hawliau yn sicrhau ein bod ni i gyd yn cael ein trin yn deg, yn gallu cyflawni ein potensial ac yn gallu codi ein llais. Mae gan blant hawliau ychwanegol i oedolion, am fod angen amddiffyniad ychwanegol arnynt a'u bod yn ddibynnol iawn ar yr oedolion o'u cwmpas. Er mwyn sicrhau hawliau plant, dylai'r oedolion hyn ystyried yr hyn sydd orau i fabanod a phlant ifanc yn eu bywydau o ddydd i ddydd, i wneud yn siŵr eu bod yn cael mwynhau eu hawliau a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Yn y pen draw, mae'n ymwneud â'r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i dyfu i fod **yn Hapus, yn Iach ac yn Ddiogel**.

Nid rhywbeth i osod gofynion ychwanegol arnoch chi yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw chwaith yn golygu y gall plant wneud beth bynnag maen nhw ei eisiau pryd bynnag maen nhw eisiau! Yn hytrach, mae'n rhoi'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth ichi i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Cefnogi fy Hawliau - Dyma fi! (0-12 mis oed)

Cymerwch amser i gyflwyno pobl newydd imi

Siaradwch â mi, rhowch bethau imi eu teimlo, eu cyffwrdd, eu blasu, i edrych a gwranddo arny'n nhw

Cadwch fi'n agos

Ystyriwch sut dw i'n gweld y byd, a rhannwch hyn â phawb

Mae popeth yn newydd i mi

Gwylwch ystumiau fy wyneb, fy symudiadau a'r synau dw i'n eu creu; dyma fy Llais

